

Llifogydd Afon Teifi, a thonnau gwyllt y môr



Fe gawsom yn Llechryd law mawr fel a ganlyn yn ddiweddar:

18/12: 46.2mm, 20/12: 17.4mm, 23/12: 53.6 mm

Ar ôl y storm gyntaf roedd y llifogydd yn debyg iawn i'r rhai llynedd ('Lefel 2'). Er gwaethaf y glaw ar y 20ed, roedd lefel yr afon yn dal i syrthio tan fore ddoe pan ddaeth dwy ran o dair o'r 53.6 mm. Gwthiodd hynny y lefel yn ôl i lefel ar 19/12. Ond roedd y glaw ar y ffrwnt oer neithiwr yn ormod a'r bore 'ma roedd yr afon wedi cyrraedd 'Lefel 4' (dros y ffordd fawr). Wnaeth y dŵr ddim gorlifo i mewn i dai, diolch i'r drefn, ac fe fydd y briffordd ar agor 'fory, rwy'n tybio. Ond mae'r bont yn debyg o aros dan y tonnau am sbel hirach (ac mae mwy o law ar ei ffordd).

Mae'r ddau lun yn ceisio dangos y gwahaniaeth yn lefel yr afon rhwng 19/12 (uchod) a 24/12. (llun isaf) yn Llechryd yn agos at Afon Teifi (ond rhyw 50 troeddfedd uwch ei phen – diolch byth) sy'n 3 milltir i'r dde-ddwyrain o Aberteifi. Mae'r glaw blynyddol ychydig dros 100mm ar gyfartaledd – rydyn ni yng nghysgod glaw y Preseli, rwy'n tybio. Mae'r afon yn mynd i mewn i Geunant Cilgerran ger hen bont Llechryd (18g) dros yr afon sy'n tueddu i orlifo ar y caeau ar ôl glaw trwm yn enwedig am fod hanner isaf y ceunant yn llanwol – does unman arall i'r dŵr fynd. Gellir nodi efallai bedair lefel o orlifo: 1. Dros y caeau yn unig. 2. Dros y ffridd bychain o bobtu'r afon hefyd Mae 1. a 2. yn digwydd bob blwyddyn bron. 3. Dros y bont hefyd 4. Dros y ffordd fawr i Aberteifi (ac efallai i mewn i'r tai wrth ei hochr) Mae 3. a 4. yn brinnach wrth gwrs.

Dyma fanylion y glaw yn Nhachwedd 2013: 19/11-13mm, 20/11-8.6mm, 21/11-10.2mm, 22/11-34mm, 23/11-3mm, 24/11-21mm

Y canlyniad yw llifogydd lefel 2 – gw. llun. Dwi'n synnu nad yw'r afon wedi gorlifo mwy - doedd pethau ddim yn waeth y bore 'ma na dydd Gwener er gwaetha' glaw dydd Sadwrn

Howard Williams



Diwedd Rhagfyr ar môr yn dangos ei gryfder ynn Nghricieth. Welais i erioed y fath donnau a phobl ymhobman gyda camerau.

Netta Pritchard

Golau'r Gogledd - Aurora Borealis

9 Ion 2014 Gan ei bod yn sych (hwre) mynd ati i dacluso o gwmpas yr ardd. Gobeithio medru gweld Goleuada'r Gogledd heno - son ar raglen 'stargazing' y BBC fod hynny'n bosib. Welais i ddim i fyny i tua 2.30am

10 Ion 2014 Gwawrio'n braf gyda chryn gochni yr yr awyr ond erbyn amser cinio wedi codi gwynt a glaw eto. Draw i Fae Treaddur i weld olion y storm - synnu gweld y traeth mor garregog, waliau wedi eu malu a sbwriel garw ym mhob cilfach. Y maes parcio i'w weld fel pwll nofio. Gweld ar wefan y Daily Post fod rhywun wedi medru tynnu llun Goleuadau'r Gogledd tua Llangollen neithiwr.

Olwen Evans

26 Ion 1938 Wel dyma ddiwrnod oerach er ei bod yn chwythu llai. Wel dyma olau neithiwr yn yr awyr a beth oedd o ond ryw "NORTHERN LIGHTS" neu rywbeth

Dyddiadur Owen T. Griffiths,

Rhos y Ffordd, Llangristiolus

[Digwyddodd y goleuni hwn ar anterth y cylich smotiau haul o osgled 119.2 <http://www.ips.gov.au/Educational/2/3/1>]

29 Mawrth 1939 O'r 20fed i'r 28ain: Goleuni y Gogledd aurora Borealis i weld yn yr hwyr. Tywydd ystormus, tymhestlog ac eirlaw. GOLEUNI'R GOGLEDD

25 Mawrth 1946 Goleuni y Gogledd i'w weld gyda'r nos.

Dyddiadur DO Jones, Ty Uchaf, Padog (gyda chaniatad papur bro Yr Odyn a'r Teulu)

Cofnodion tywydd ddaeth i law y gaeaf hwn

Gwynt uchaf wedi ei gofnodi heddiw (27 Rhagfyr) yn Aberdaron 109 milltir yr awr. Deffro i wyntoedd cryf iawn [Rhostryfan] eto a gweld fod 5 coeden Leylandii cymydog wedi chwythu drosodd ar ben to ein cegin - yn lwcus ni fu difrod. Llauer o goed a ffyrdd wedi cau yng Ngwynedd. Cymaint oedd pwysau'r gwynt heddiw nes ei fod yn gwneud clustiau rhywun yn reit rhyfedd pan fo'r drws yn cael ei agor. To'r ymgymerwr ym Mhenygroes wedi ei ddifrodi.

Olwen Evans

Bangor 9 Rhagfyr: Mwyalchen yn canu nerth ei ben y tu allan i ysbty gwynredd 3 o'r gloch y bore. (Dod i edrych am Duncan Brown mae'n siwr. I.W.)

Gallt-yr-Huan 9 Rhagfyr: Bu yn fis weddol fwyn ond yn wlyb a gwyntog gyda tri diwrnod stormus. Dim ond mis Hydref oedd yn wlypach. Bu un ar hugain (21) o ddiwrnodau o wlaw, a ni fu'r un diwrnod o rhew sydd yn anarferol iawn.

Gallt-yr-Huan 2013: gorsaf dywydd BJ

Dyma sylwadau am y flwyddyn. Cyfanswm y glaw dros y flwyddyn oedd 1204.5mm i gymharu a 1474mm yn 2012. Cyfartaledd y tymheredd dros y flwyddyn oedd 9.3°C, a bu 36 diwrnod o rhew dros y deuddeg mis. Cyfartaledd y gwynt oedd 171g ac mae'r gaeaf hyd yn hyn yn fwyn iawn.

Gorsaf dywydd Bryan Jones Llangamach Powys

...ac o'r BBC

3 Ionawr Loo, Cernyw: newyddion bbc -- Llanw uchaf ers 1997. Gwynt mawr o'r de y tu ôl iddo yn bygwith Loo yng Nghernyw.

5 Ionawr Rhostryfan: Diwrnod arall stormus - ei chael yn anodd i gerdded o'r car i'r tŷ tua 6 heno oherwydd nerth y gwynt. Chwythwyd 6 coeden leylandii drosodd yng ngardd cymydog wsnos dwytha ac felly dim cysgod o'r gwynt. Y platform pren newydd yn Llanddwyn [isod ar y dde] wedi ei ddifrodi gan y storm ac addewid am fwy o dywydd garw fory. Parhau i fod yn fwyn - sylwi fod cynffonau wyn bach yn hir ar y coed wrth ymyl y ffordd allan o Gaernarfon a hefyd mewn sawl lle ar ymylon yr A55.

Olwen Evans

20 Ionawr 2013 Newyddion y BBC bore ma yn dweud bod twrbeinau gwynt wedi cyfrannu record o 14% o drydan y grid cenedlaethol ar 5^{ed} Ionawr eleni.

...ac yng Nghnada

4 Ionawr Yn ôl Lyric FM Oer iawn yng Nghnada. 11 wedi marw. -29°C yn Toronto a -38°C yn Quebec, oeraf erioed.

Gan ein darllenwraig o Tatamagouche, Nova Scotia:-

22 Rhagfyr *The weather is pretty foul, so a lot of things are being cancelled. It's an ice storm today. It's been down to -27 so far, but today it's hovering just under 0.*

4 Ionawr *Today it has warmed up to -12 and there is a massive winter blizzard. Yesterday it was -27 here.*

Liz Spence

Eitm ar y newyddion 6 Ionawr I ddangos pa mor oer oedd hi yng Nghanolbarth yr U.D.A., fe wnaeth newyddiadurwr daflu dŵr berwedig allan o gwpan yn y stryd, ac fe oedd y dŵr wedi rhewi cyn cyrraedd y llawr. Cymharwch tywydd Brasil yr un pryd (tudalen 4)

Cwyd dy bladur

Dyma gwpld a gafwyd mewn llythyr o eiddo Gwilym Price, Tanygrisiau. Roedd o a'i Dad, a thri o'i frodyr bob amser yn pladuro'r gwair ar y fferm gartref, ond yn bymtheg oed mi benderfynodd fynd yn blymar. Dyma gyingor ei Dad iddo:

"Cwyd dy bladur cyn iddi fynd heb ddim min, a stopia dy geffyl cyn iddo stopio'i hun."

Bethan Wyn Jones

Porth Neigwl

Ym Mhorth Neigwl daeth y bonion coed o goedwig wedi suddo i'r golwg yn dilyn storm Ionawr 4 a'r 5ed. Diolch i Gymdeithas Archaeoleg Llŷn



Llun: David Gray

am y lluniau. Mwy o'r hanes ar eu tudalenau facebook.

https://www.facebook.com/archllyn?hc_location=timeline

Ac or un ardal dyma gnau tua 5000 mlwydd oed yw'r rhai duon a ddarganfuwyd ar y traeth gan Dafydd Davies-Hughes, Felin Uchaf. Diolch i Felin Uchaf, Rhoshirwaun mwy ar dadalen Facebook Felin Uchaf www.facebook.com/felin.uchaf.7?fref=tsDZ



Difrod yn Llanddwyn



Tynnwyd y lluniau gan Geraint Mitford Williams - mae'n dangos y difrod a wnaethpwyd i'r platform newydd a godwyd ar draeth Llanddwyn y llynedd.

Llun a stori: Olwen Evans

60 mlynedd yn ôl i eleni y darlledwyd y tywydd ar y teledu am y tro cyntaf.

Aberystwyth!

Bu'r gaeaf hwn yn fythgofiadwy i drigolion Aberystwyth, ond dim yr unig aeaf - dioddefodd y dref llanast enfawr yn 1938.

4 Ionawr. Stormydd mawr ledled gorllewin Prydain eto. Tonnau 60 troedfedd Aberystwyth; perchnogion y tai ar y promenad yn cael gorchymyn i adael. Llifogydd mawr yn ne orllewin Lloegr. Y Tywyddiadur

Storm Aberystwyth 1938.

14 Ionawr 1938 *In 1938, Aberystwyth was hit by one of the worst storms in its history. Houses on the seafront were devastated and the pier was shortened by 200ft during the gales.*

Huw

Holland Jones

Woodward A. & Penn R. , The Wrong Kind of Snow (Hodder & Stoughton) Aberystwyth flood

"The late Victorian houses of Victoria Terrace now preside over a tranquil scene that belies the events that took place here on Friday, January 14th 1938, a day that started no different to any other January day in Aberystwyth. Leaden grey skies stretched to the horizon, merging into a grey, grumbling Cardigan Bay. Towards evening the wind stiffened from the south west and every breaker seemed to crash with greater force than the last each backwash throwing the pebbles together, hissing and swishing them down to meet the next wave.

Mwy am hyn ar

http://www.bbc.co.uk/wales/mid/sites/history/pages/great_storm.shtml
[gyda diolch i David Thorne am dynnu sylw at hwn]

15 Ionawr 1938 Pier Aberystwyth wedi ei thorri yn ddwy, llanw uchel, gwynt cryf o'r de. Roedd y llanw uchaf yn ffodus ychydig ddyddiau wedyn (rhaglen Helo Bobl 26 Ebrill 1988)

Esgerdawe, Caerfyrddin 15 Ionawr 1938

A storm has raged throughout the night. Annie came home from Aberystwyth College owing to damage to halls by wind & sea...Rugby - Wales beat England 14-8 [Moc (Gorilla of the London zoo) died age 9½ yrs wt 23 stones 14 Ionawr 1938] Dyddiadur Defi Lango (Gol. Goronwy Evans)

Dyma glip o ffilm gan Pathe News o'r llanast. <http://tinyurl.com/qh4k7u4>

Storm Tachwedd 1928: difrod yn y Bermo



Cyfrannwyd y llun gan Hugh G. Roberts

Bwlchtoyn 23 Tachwedd 1928: Chwythu yn arw trwy'r dydd - taranu a mellu a gwlaw mawr iawn [diwrnod cyn y storm]. John Owen Hughes, Crowrach

De Lloegr 24 Tachwedd 1928

23 a 25 Tachwedd 1926 *Severe gales*
Two south-westerly gales in quick succession swept much of England and Wales, causing some loss of life and much disruption and damage.

Gusts reached 85-90 mph at several sites on both dates, and 93mph at an over-exposed anemometer at Cardington, near Bedford.

Banks, Lancs [27 Tachwedd 1928]

Eden P. (2008) *Great British Weather Disasters* (Continuum Books, gyda chaniatad)

LITTLE AUK (Alle alle).[Swydd Gaerhirfryn] *One was seen battling against a strong east wind at Banks on November 27th, 1928.*

Crynodeb tywydd o 1954.

Dilyw o flwyddyn a fu 1954. Ni welwyd o'r blaen gymaint o law mewn blwyddyn. Hon fydd y flwyddyn wlybaf ymysg y blynyddoedd. Blwyddyn y ffosydd llawn, blwyddyn yr haf dau ddiwrnod. Blwyddyn heb wên yr haul, nag awyr las. Yr oedd i'r flwyddyn hon fyddin enfawr o gymylau y rhai a ddeuent yn ddifffael bob dydd gan dywallt eu cynddaredd ar yr amethwyr druain, a chadw'r ymwelwyr o'r glannau moroedd.

Blwyddyn oedd hon ac iddi rawd difethgar. Yr oedd diwedd 1953 fel haf, y borfa'n glasu, blodau a rhosynnau yn eu gogoniant, ffrwythau'n aeddfedu diwrnodiau cyntaf 1954. A'i tybed fod hynny i'w briodoli ynglyn a bod 1954 fel gaeaf drwyddi. Bu Mai, Mehefin a Gorffennaf yn fisoedd oerion, ni welwyd rhai tebyg o fewn cof. Yr oedd bugeiliaid a chneifiwyr yn gorfod gwisgo cotiau uchaf trymion i gneifio.

Ychydig o wair da a gafwyd, roedd y rhan fwyaf o'r gwair wedi bod yn ei heulog neu fydlau ers misoedd, bu'n rhaid cario y rhan fwyaf o'r gwair yn ifanc iawn - os i gael o gwbl! Mae heddiw yn ddeunawfed o Hydref, a'r yd allan i gyd, a'r rhan fwyaf heb ei dorri. Hyd yn hyn bu y flwyddyn yn flwyddyn iach. Ychydig o afiechydon a gafwyd ganddi. Gwelir ansicrwydd a phryder wrth wynebu'r gaeaf-prinder porthiant, marchnad wael, a newyn heibio'r gornel.

Hon oedd blwyddyn y clwy cwningod "**Myxomatosis**". Deiliodd y Dderwen bron i fis o flaen yr Onnen. Ychydig iawn o griafol, ond y cnau fel arfer. Y mae yn seithfed ar hugain o Hydref heddiw a'r tywydd yn parhau yn gynddeiriog, ystormus a thymhestlog, llawer o wair hyd y caeau a'r bydlau yn anharddu'r fro. Golygfa gyffredin y dyddiau hyn yw gweld ysgyfarnogod yn bwyta ac yn llechu yn y sypiau yd a'r brain yn gwledda ar dop y sypiau. Hen flwyddyn oer drwg digalon, mae gwae yn ei rhagolygon.

Ysgubor wag, a brain tewion.

Parhau yn ei ddigllonedd y mae'r flwyddyn ofnadwy hon, mae heddiw'n 5ed o Dachwedd a'r glaw yn pystillio, mwy na dyblu'r yd heb ei dorri, clywais droeon y geiriau canlynol gan hen ffermwyr y fro sef, "mae hi'n siwr o ddod, a cael cynhaeaf welsom ni rioed," petasai y nhw yn fyw heddiw cawsant wedl peth arall. Ia blwyddyn gofiadwy a fydd 1954. Aeth y gwair Dylasau Uchaf ar dan yn y gadlas, y ddau gwlas wedi twmo, cariwyd y gwair allan i'r caeau yn ei ol, a'i adael i'r glaw ei ddiffodd.

D.O.Jones Padog

Y Dadmar yn Nova Scotia

We've had quite a thaw this last week [22 Ionawr 2014] – most of the snow gone.



BUT it has now started again, and the temps are supposed to plummet once again. This is fairly typical: there are usually 3-4 thaws during the winter, and they have

different names: the robin thaw, the lambing thaw, the smelt thaw and one other I can't remember.

Elizabeth Spence

Ychwanegwch ddeunydd i llennatur@yahoo.co.uk Duncan Brown, ac Ifor Williams.

Rheswm am y tywydd gwael.

Daeth cwestiwn i law gan un o'n ffyddloniaid yng Nghanada ynglŷn a'r tywydd mawr sydd yno ac yn yr U.D.A. ar y funud. Rhywun ar y wefan hon <http://news.nationalpost.com/2014/01/06/from-wind-chill-to-flash-freezes-seven-things-to-know-about-this-canadian-winter/> yn holi am y Polar Vortex, ac fel arfer y gŵr i'w holi yw'r meteorolegydd Huw Holland Jones - *The Polar Vortex is a bit complicated, also called a polar cyclone or polar low (altho' a polar low in British weather should not be confused with the Polar Vortex in Canada)*
The Polar Vortex is usually over Nunavut (Baffin Island) & is located in the middle & upper troposphere & stratosphere.
Another vortex is over NE Siberia, & another lies over Antarctica above the Ross Ice Shelf.

When the Polar Vortex is strong (when the air is very cold over the Arctic) the westerly flow is strong & prevents very cold air flooding across N America. When the vortex weakens (when the air temperature over the Arctic is above average) the Polar Vortex weakens, the westerly circulation buckles, and extremely cold air floods south to south-east across America.

By the way, that air has now reached the UK (late Friday night, but much warmed up by its passage across the Atlantic.

Our stormy winter is owing to the very cold air that has been coming out of Canada since late November, meeting the warm moist maritime air coming up from the Azores, the temperature contrasts causing deep Atlantic Lows, & creating an unusually powerful jet-stream, thus our wet, mild stormy winter....so far.

The coastal floods of the last weekend were owing to the high tides, long SW fetch of powerful winds, & very low pressure allowing the sea surface to rise above normal. Add to this sea level rise owing to global warming as the oceans expand (3mm a year at present), 22cm since 1870, and no surprise that coastal erosion is increasing.

Nodyn o Batagonia!

Gloria Roberts o'r Waunfawr (o Batagonia yn enedigol) yn dweud heno (21 Ionawr) bod yr ardal i'r gogledd o Buenos Aires tua Cordoba, wedi dioddef gwres llethol hyd at 56°C o gwmpas y Nadolig a'r Calan pan oedd yr UD yn cael tywydd eithriadol o oer. Cyn y cyfnod hwn roedd ardal Santiago del Esteria ym Mhatagonia wedi gweld eirlaw, a hithau'n ganol yr haf.

Harlech

Llun o dwyni Harlech ar ôl storm fawr Nadolig 2013. Mewn rhai manau roedd y tonnau wedi cyrraedd tua ugain troedfedd o uchder yn ogystal a glanhau y traeth a phob tamaid o sbwriel.

Ilun a stori: Gwilym Arthur Roberts



Clwc-longc-lingc (a'r stormydd ddaeth i ben)



Llun: Rhys Jones

Mae galwad y soffliar yn Saesneg yn cael ei gyffelybu i "wet-my-lips, wet-my-lips" - cyffelybiaeth onomatopaeig effeithiol iawn. Bum yn dyfalu ers tro a oes ymadrodd yn y Gymraeg am gân y soffliar (oedd unwaith mor gyffredin yma)? Dyma ddod ar draws hwn ym mhapur newydd Cymro Lerpwl a'r Wyddgrug 24 Awst 1905:

Soffliar. Clywais am un gafodd gryn fraw pan glywodd yr aderyn am y tro cyntaf. Yr oedd wedi bod allan yn pysgota, ac wrth ddychwelyd tuag adref clywodd swm dieithr iddo ef yn y cae gwair—" Clwc longc lingc," "Clwc longc lingc," tybiodd ei fod yn ei ddilyn, ac yn nesu ato yn nes, cofiodd iddo glywed y byddai bronwenod yn symud yn fintai weithiau i hela, ac y byddent y pryd hynny yn dueddol i ymosod ar ddyn pe digwyddai iddo fod ar eu ffordd barnai mai doeth oedd gwneud y goreu allai i gyrhaedd adref cyn digwydd gwaeth, a golwg difrifol mi gredaf oedd arno yn cyrhaedd y tŷ a'i wynt yn ei ddwrn."

Cymro (Lerpwl A'r Wyddgrug) 24 Awst 1905

Mwy o gofnodion am [soffleir](#) yn y Tywyddiadur

Pry glas anhymhorol

28 Ionawr 1914: *A beautiful sunny morning; tho the eastern sky was rosey at sunrise. Clouds over in the afternoon. Slight drizzling rain tonight, W. At Glain Orme Mr Hopps calls my attention to the greenfly on the buds of one of the rosebushes. There are only a few but they are active - most unusual at this time of year considering we have twice experienced over 6° of frost.*

Dyddiadur Harry Thomas, Nantygamar, Llandudno (Archifdy Conwy trwy wefan LIGC)

Difrod i gytiâu drudfawr yn Abersoch



Llun: Netta Pritchard

Data glaw John Lloyd Jones, Sir Benfro.

